Adroddiad i'r	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
Dyddiad y cyfarfod	30 Tachwedd 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych
Teitl	Adolygiad Cofrestr Risg BGC, Tachwedd 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Diweddariad blynyddol ar Gofrestr Risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r BGC adolygu cofrestr risg BGC Conwy a Sir Ddinbych a'r risgiau mae'r BGC yn ei wynebu.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'r BGC yn ystyried y risgiau, y sgoriau a'r camau lliniaru a gynhwysir yn y Gofrestr Risg lawn (Atodiad 1).

3.2. Mae'r BGC yn nodi'r newidiadau a amlygwyd ym mharagraff 4.3 ac yn trafod unrhyw newidiadau pellach neu risgiau newydd a allai fod yn ofynnol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Caiff Cofrestr Risg y BGC ei datblygu gan y BGC a'r Bwrdd sydd yn berchen arni. Mae'n cael ei adolygu unwaith y flwyddyn, fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl.

4.2. Cyflawnwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2020.

4.3. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn mae yna nifer o ddiweddariadau bach wedi bod, dyma grynodeb:

- Cynnwys colofn ychwanegol i adnabod camau gweithredu lliniaru yn y dyfodol i annog meddwl ac ataliad hirdymor.

- BGC 2: Y risg nad yw sefydliadau partner yn ymroddedig i'r bwrdd. Cynnwys tri cham gweithredu lliniaru ychwanegol:
    i. Mae aelodau BGC wedi cytuno i sefydlu cyfarfodydd anffurfiol i drafod rhaglenni sydd ar ddod, datblygu perthynas a rhwydweithio.
    ii. Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
    iii. Roedd cynrychiolwyr o restr oedd wedi'u gwahodd gan BGC wedi eu cyfethol ar Gydbwyllgor Craffu i gynorthwyo i werthuso effeithlonrwydd BGC.
- BGC 3: Y risg fod y BGC yn methu sicrhau'r effaith mwyaf posibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. Cynnwys tri cham gweithredu lliniaru ychwanegol:
    i. Cefnogaeth gan y rhwydwaith cyd-gynhyrchu i sicrhau ein bod yn cydweithio'n llwyddiannus.
    ii. Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
    iii. Roedd cynrychiolwyr o restr oedd wedi'u gwahodd gan BGC wedi eu cyfethol ar y Cydbwyllgor Craffu i gynorthwyo i werthuso effeithlonrwydd BGC.
- Un risg newydd wedi'i nodi. BGC 6**:** Y risg bod problemau recriwtio a chadw, sy'n arwain at golli arbenigedd a chapasiti, yn gwaethygu gan arwain at wasanaethau gwael neu annigonol.

4.4. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau?

5.1. Diben Cofrestr Risg y BGC yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r BGC i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu Cofrestr Risg y BGC yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

7.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.